


Y Newyddlen i Aelodau ar Bensiwn Cronfa Bensiynau Clwyd: Gwanwyn 2025, Rhifyn 21

Croeso

Yn rhifyn 2025 o Bytiau Pensiwn Clwyd, gallwch ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch mewn perthynas â'ch cynllun pensiwn gyda ni. Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, megis faint fydd eich pensiwn yn cynyddu eleni, y dyddiadau talu pensiynau ar gyfer y 12 mis nesaf, a gwybodaeth ar sut i adnabod ac osgoi sgamiau.

Cofion cynnes,
Karen Williams,
Rheolwr Gweinyddu Pensiynau



Cyllid: Cynnydd Pensiynau ar gyfer 2025



Disgwylir i fudd-daliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) gynyddu ar 7 Ebrill 2025. Byddwch ond yn cael cynnydd llawn os yw eich pensiwn wedi cychwyn ar neu cyn 22 Ebrill 2024. Os wnaethoch chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn yn dilyn y dyddiad hwn, bydd eich cynnydd yn llai yn ddibynol ar bryd wnaethoch chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau

Cadarnhawyd y bydd pensiynau'n cynyddu o 1.7% eleni. Os mai dim ond rhan o'r cynnydd hwn y byddwch chi'n ei derbyn, mae'r tabl gyferbyn yn dangos faint fydd y cynnydd hwn i chi.

Dyddiad y daeth eich cyfraniadau pensiwn i ben:	%
24 Mawrth 2024 i 22 Ebrill 2024	1.70%
23 Ebrill 2024 i 22 Mai 2024	1.56%
23 Mai 2024 i 22 Mehefin 2024	1.42%
23 Mehefin 2024 i 22 Gorffennaf 2024	1.28%
23 Gorffennaf 2024 i 22 Awst 2024	1.13%
23 Awst 2024 i 22 Medi 2024	0.99%
23 Medi 2024 i 22 Hydref 2024	0.85%
23 Hydref 2024 i 22 Tachwedd 2024	0.71%
23 Tachwedd 2024 i 22 Rhagfyr 2024	0.57%
23 Rhagfyr 2024 i 22 Ionawr 2025	0.43%
23 Ionawr 2025 i 22 Chwefror 2025	0.28%
23 Chwefror 2025 i 22 Mawrth 2025	0.14%

Cyllid: Cyfrifo eich pensiwn misol yn dilyn y cynnydd pensiwn

I gyfrifo eich pensiwn misol yn dilyn y cynnydd pensiwn, bydd arnoch chi angen rhannu'r cyfanswm blyneddol ar eich llythyr gyda 12. Ni fydd y taliad y byddwch yn ei dderbyn ym mis Ebrill yn gwbl gyfartal â'ch cyfanswm blyneddol wedi'i rannu â 12. Y rheswm dros hyn yw y bydd eich cynnydd pensiwn ond yn cael ei dalu o 7 Ebrill 2025 eleni. Defnyddir eich hen gyfanswm pensiwn ar gyfer y 6 diwrnod cyntaf ym mis Ebrill.

Er enghraifft:

Mae'r pensiwn newydd yn £12,000.00 y flwyddyn.
 $\text{£12,000.00} \div 12 = \text{£1000.00}$ y mis.

I gyfrifo eich taliad ym mis Ebrill, bydd yn rhaid i chi ddefnyddio cyfanswm pensiwn 2024 a'i rannu gyda 12, ac yna cyfrifo'r dyddiau ar y ddwy gyfradd.

Mae'r hen bensiwn yn £9,000.00.
 $\text{£9,000.00} \div 12 = \text{£750.00}$ y mis.

Dyma sut i gyfrifo eich taliad ym mis Ebrill:

$\text{£750.00} \div 30$ diwrnod ym mis Ebrill x 6 diwrnod ar yr hen gyfradd = £150.00
 $\text{£1000.00} \div 30$ diwrnod ym mis Ebrill x 24 diwrnod ar y gyfradd newydd = £800.00

Cyfanswm taliad mis Ebrill: £150.00 + £800.00 = £950.00

Cyllid: Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG)

Os oeddech chi'n talu cyfraniadau CPLIL rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 1997, roeddech chi'n talu cyfraniadau yswiriant gwladol gostyngedig. Mae hyn yn golygu nad oeddech chi'n talu i Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion ("SERPS"). Enw arall ar hyn yw Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P).

Os yw'r uchod yn berthnasol i chi, bydd eich cyfrifiad cynnydd pensiwn ychydig yn wahanol i'r cyfrifiad arferol. Y rheswm dros hyn yw nad yw'r cynnydd llawn bob amser yn berthnasol pan mae'n uwch na 3%. Os oes gennych chi unrhyw bryderon neu ymholiadau am hyn, cysylltwch â ni a gallwn ddarparu crynodeb o'n cyfrifiad i chi.

Cyllid: P60

Bydd eich P60 am y flwyddyn 2024/2025 yn cael ei gyflwyno i chi erbyn 19 Mai 2025. Os ydych chi wedi cofrestru ar gyfer yr Hunanwasanaeth Aelodau (HWA), byddwch yn gallu gweld a lawrlwytho eich P60 yn yr adran gyflogau ar eich cyfrif ar-lein. Os ydych chi wedi dewis gohebiaeth ar bapur, byddwch yn derbyn eich P60 drwy'r post.

Manylion Cyswllt ar gyfer y Swyddfa Dreth

Bydd y swyddfa dreth yn rhoi gwybod pa god treth i'w ddefnyddio ar eich pensiwn a ph'un a ddylem ddidynnu treth gennych neu beidio. Gallwn ond didynnu'r swm treth y mae'r swyddfa dreth yn ei ddweud wrthym. Os ydych chi'n meddwl fod eich cod treth yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa dreth yn uniongyrchol. Bydd angen i chi roi eich rhif yswiriant gwladol a'n cyfeirnod treth, sef 914/YA14288. Eu rhif ffôn yw 0300 200 1900. Os ydych chi'n sylwi ar unrhyw newidiadau i'ch taliad misol, efallai bod eich cod treth wedi newid. Bydd y swyddfa dreth yn gallu egluro'r newid hwn i chi.

Cyllid: Dyddiadau talu ar gyfer Ebrill 2025 i Mawrth 2026

Bydd eich pensiwn fel arfer yn cael ei dalu i chi ar y 28ain o bob mis. Ond os yw'r 28ain ar benwythnos neu ŵyl y banc yna bydd y taliad yn cael ei wneud ar y diwrnod gwaith olaf cyn hynny. Cofiwch ein bod yn talu pensiwn mis Rhagfyr yn llawer cynt er mwyn sicrhau eich bod wedi derbyn eich taliad pensiwn cyn gwyliau'r Nadolig.

Y dyddiadau talu ar gyfer y 12 mis nesaf yw:

2025	28 EBR	2025	28 MAI	2025	27 MEH	2025	28 GOR	2025	28 AWS	2025	26 MED
2025	28 HYD	2025	28 TAC	2025	18 RHA	2026	28 ION	2026	27 CHW	2026	27 MAW

Rheoliadau: Diweddariad McCloud

Mewn newyddleni blaenorol, rydym ni wedi rhoi gwybod i chi am y dyfarniad McCloud. Mae dyfarniad McCloud wedi arwain at newid rheoliadau pensiwn cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus, yn cynnwys Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Roedd angen y newidiadau er mwyn dileu'r gwahaniaethu ar sail oed hanesyddol ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2022. Felly mae'n bosibl y bydd dyfarniad McCloud yn effeithio arnoch chi os gwnaethoch chi ymddeol ar ôl 1 Ebrill 2014.

Does dim rhaid i chi wneud hawliad gan y byddwn ni yn ailgyfrifo pensiynau pensiynwyr cymwys. Ni fydd pensiynau'r rhan helaeth o'r aelodau yn cynyddu. Os bydd cynnydd, mae'n debygol o fod yn fach. Byddwn yn ysgrifennu atoch os yw gwerth eich pensiwn yn cynyddu. Gan eich bod chi eisoes yn bensiynwr gyda ni, byddwn yn talu unrhyw ôl-ddyledion neu log sy'n ddyledus i chi unwaith y bydd eich pensiwn wedi'i ailgyfrifo.

Gallwch ddarllen rhagor am Ddatrysiad McCloud a gwyllo fideo byr ar wefan y CPLIL cenedlaethol:

www.lgpsmember.org/mccloud-remedy (mae'r ddolen yn mynd I wefan allanol felly bydd yn Saesneg)



Cyllid: Cipolwg o ffeithiau a ffigyrau 2024/2025

Bydd ein cyfrifon ar gyfer 2024/2025 yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blyneddol y Gronfa fydd ar gael ar ein gwefan ar ddiwedd 2025. Yn y cyfamser, dyma'r ffigyrau a archwiliwyd ar gyfer 2023/2024.

Telir y cyfraniadau i mewn i'r Gronfa gan gyflogwyr a'u gweithwyr. Caiff unrhyw arian nad oes ei angen i dalu buddion pensiwn yn y tymor byr ei fuddsoddi i ddarparu buddion yn y dyfodol. Caiff y cyfraniadau eu buddsoddi yn unol â'n Strategaeth Fuddsoddi a'n Polisi Buddsoddi Cyfrifol. Mae ein Datganiad Strategaeth Fuddsoddi i'w weld yn adran strategaethau a pholisïau ein gwefan:

cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisïau/cartref.aspx

Gan fod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun â buddion diffiniedig, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa'n cael unrhyw effaith ariannol ar werth eich buddion pensiwn chi. Felly darperir y ffigyrau isod er gwybodaeth yn unig.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â buddsoddiadau neu gyfrifon y Gronfa, mae croeso i chi ffonio 01792 002129 neu anfon neges e-bost i

buddsoddiadaupensiwn@siryfflint.gov.uk



Incwm 2023/2024		Gwariant 2023/2024	
Incwm	£m	Gwariant	£m
Gweithwyr	21,808	Pensiynau	78,691
Cyflogwyr	59,662	Cyfandaliadau	18,922
Incwm buddsoddi	35,158	Arall	38,482
Arall	5,493	Diffyg net	-13,974
	<u>122,121</u>		<u>122,121</u>
Cyfranwyr 31 Mawrth 2024		Pensiynwyr 31 Mawrth 2024	
Pob cyfrannwr	<u>17,813</u>	Aelodau wedi ymddeol a dibynyddion	15,796
		Buddion a gedwir	18,383
			<u>34,179</u>
Gwerth y gronfa ar y farchnad ar 31 Mawrth 2024		Newid mewn asedau net	
	£m		£m
Gwarantau llog sefydlog	904,445	Y Gronfa ar 1 Ebrill 2023	2,302,598
Ecwiti Cynaliadwy	344,501	Arian newydd net	-13,974
Buddsoddiadau amgen	889,528	Newid yng ngwerth y farchnad yn ystod y flwyddyn	
Buddsoddiadau DU, Lleol ac Effaith	211,746	Elw wedi'i wireddu a heb ei wireddu	192,096
Arian Parod a Symiau Cyfwerth	125,059	Y Gronfa ar 31 Mawrth 2024	<u>2,480,720</u>
Asedau net	5,441		
	<u>2,480,720</u>		

Cyngor Clwyd

Yn adran hon y newyddlen, mae'r Gronfa'n cynnig cyngor ar faterion ehangach nad ydynt yn ymwneud â'r CPLIL yn unig.

Sgamiau

Mae sgam yn gynllun anonest neu dwyllodrus sy'n ceisio eich twyllo i roi eich arian neu rannu gwybodaeth bersonol. Gan eich bod chi eisoes yn cael eich buddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), nid ydych chi mewn perygl o'r rhan fwyaf o sgamiau pensiwn. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod sgamiau fel arfer yn digwydd pan fyddwch chi'n trosglwyddo i gynllun pensiwn newydd. Ni allwch drosglwyddo'ch pensiwn CPLIL ar ôl i chi ddechrau ei dderbyn.

Mae gan Gronfa Bensiynau Clwyd dudalen benodol ar sgamiau pensiwn ar ei gwefan i'ch helpu chi i wybod beth i gadw golwg arno

cronfabensiynaclwyd.org.uk/cy/CPLIL/Eisoes-yn-derbyn-pensiwn/Sgamiau-Pensiwn/cartref.aspx

Mae Age UK hefyd wedi creu canllaw ar-lein ar sut i adnabod ac osgoi sgamiau. I archebu neu ddarllen y canllaw am ddim, ewch i

www.ageuk.org.uk/information-advice/money-legal/scams-fraud/scams-guide/ (mae'r ddolen yn mynd I wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Os bydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn cysylltu â chi am eich pensiwn, mae'n bosibl na fydd ein rhif ffôn yn ymddangos ar eich ffôn. Os oes gennych chi unrhyw bryder ynghylch pwy sydd yn eich ffonio, rhowch y ffôn i lawr a'n ffonio ni'n ôl. Mae ein manylion cyswllt ni ar gael ar waelod y newyddlen hon.



Costau Byw

Wrth i gostau byw a phrisiau ynni gynyddu, rydym yn cydnabod yr heriau cynyddol ac wynebier gan ein pensynwyr. Er ein bod ni ond yn gyfrifol am dalu eich pensiwn CPLIL, efallai y bydd taliadau eraill ar gael i chi gan sefydliadau eraill fel gostyngiadau ar ynni a chludiant.

Cyngor ar Bopeth

Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor cyfrinachol ac ymarferol am ddim ar-lein, dros y ffôn a wyneb yn wyneb. Gallwch siarad efo Cyngor ar Bopeth i'ch helpu chi i ddeall pa gymorth ariannol neu fudd-daliadau a all fod ar gael i chi:

Ffôn: **0808 223 1144**

Gwefan: www.citizensadvice.org.uk/cymraeg

**cyngor ar
bopeth**



Age UK

Mae Age UK yn rhoi gwybodaeth a chyngor ar arian a materion cyfreithiol, iechyd a lles, gofal a chefnogaeth a llawer mwy. Ewch i wefan Age UK i weld sur fedran nhw eich helpu chi:

Ffôn: **0300 303 4498**

Gwefan: www.ageuk.org.uk (mae'r ddolen yn mynd I wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Cyfathrebu: Gwybodaeth ddefnyddiol ar ein gwefan ar gyfer ein pensiynwyr

Cafodd yr adran ar gyfer pensiynwyr ar wefan Cronfa Bensiynau Clwyd ei diweddaru a'i gwella llynedd. Mae'n llawn o wybodaeth ddefnyddiol i aelodau sydd ar hyn o bryd yn cael pensiwn:

cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/CPLIL/Eiso-es-yn-derbyn-pensiwn/cartref.aspx

Mae gan ein pensiynwyr sy'n cael pensiwn CPLIL (Cynghorydd) dudalen benodol:

cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/CPLIL-i-Gynghorwyr/Eiso-es-yn-derbyn-pensiwn/cartref.aspx



Eiso-es yn derbyn pensiwn

Cael taliadau
pensiwn

Dyddiadau talu a
chodiad
pensiynau

Talu treth ar eich
pensiwn

Pensiynwyr sy'n
cael eu hail-gyflogi

Buddion ar gyfer
cyn-bartneriaid

Buddion
Marwolaeth

Sgamiau Pensiwn

Cyfathrebu: Ydi'ch manylion personol neu'ch cyfrif banc wedi newid?

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn awyddus i sicrhau bod gennym y manylion cyswllt cywir ar eich cyfer. Mae hynny'n cynnwys eich cyfeiriad, cyfenw a'ch manylion banc. Rydym yn dibynnu arnoch i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn, er mwyn sicrhau fod gennym y manylion cywir ar eich cyfer.

Os byddwch yn newid cyfeiriad, gallwch roi gwybod i ni ar eich cyfrif Hunanwasanaeth Aelodau neu gallwch ysgrifennu / anfon e-bost atom gyda'r manylion newydd. Nodwch eich enw, eich Rhif Yswiriant Gwladol neu ddyddiad geni, cyfeiriad blaenorol, a'ch cyfeiriad newydd yn eich llythyr / e-bost.

Os byddwch yn newid eich enw / statws priodasol, anfonwch lythyr neu e-bost atom gyda'ch manylion newydd os gwelwch yn dda. Nodwch eich enw, rhif yswiriant gwladol, neu ddyddiad geni, ac anfonwch gopi o'r ddogfen sy'n dangos eich enw / statws priodasol newydd os gwelwch yn dda. Er enghraifft, eich tystysgrif priodas, archddyfarniad absoliwt, neu weithred newid enw.

Os byddwch yn newid cyfrif banc, cofiwch roi gwybod i ni er mwyn i ni fedru cyfrannu at dalu eich pensiwn i'r cyfrif cywir. Gallwch ddiweddaru eich manylion banc ar ein cyfrif Hunanwasanaeth Aelodau neu gallwch anfon llythyr wedi'i arwyddo yn cadarnhau manylion eich cyfrif banc / cymdeithas adeiladu blaenorol a'ch cyfrif banc / cymdeithas adeiladu newydd. Fel arall, gallwch lenwi ffurflen Newid Banc a gaiff ei darparu i chi gan Gronfa Bensiynau Clwyd.

Ni ellir gwneud y newidiadau hyn dros y ffôn.

Manylion cyswllt Cronfa Bensiynau Clwyd



E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk
Cyflogres y Pensiynwyr: 01352 702912
Ymholiadau CPLIL Cyffredinol: 01352 702875
(Mae'r llinellau ffôn ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm)
Gwefan: cronfabensiynaclwyd.org.uk
Cyfeiriad: Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Rhifau cyswllt defnyddiol eraill:

Mae'r dolenni isod yn mynd i wefannau allanol. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r gwefannau yn uniaith Saesneg.

Pensiwn y Wladwriaeth	www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd	0800 731 7936
Y Swyddfa Dreth	www.gov.uk/codau-treth	0300 200 1900
Cynllun Pensiwn Athrawon	www.teacherspensions.co.uk	0345 606 6166
Cyngor ar Bopeth	www.citizensadvice.org.uk/cymraeg	0808 223 1144
AgeUK	www.ageuk.org.uk	0300 303 4498
Gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith	www.gov.uk/ar-ol-marwolaeth/sefydliadau-sydd-angen-i-chi-gysylltu-a-nhw	0800 085 7308
Gwasanaeth Orlhain Pensiynau	www.gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn	0800 731 0175

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau gwahanol, er enghraifft, Braille, print bras, Fideo/DVD Iaith Arwyddion Prydain, tâp sain ac ieithoedd eraill ar gais.

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.

